GWASANAETHAU BEDYDD

O'r gyfrol Addolwch yr Arglwydd, Llyfr gwasanaethau ar gyfer Annibynwyr a Bedyddwyr.

Ceir tri gwasanaeth bedydd yma. Mae'r cyntaf, 'Bedydd Credinwyr', yn deillio o'r traddodiadau Annibynnol a Bedyddiedig, tra bod yr ail, 'Bedydd Credinwyr trwy Drochiad', yn seiliedig ar arferion y traddodiad Bedyddiedig. Gwasanaeth yn y traddodiad Annibynnol yn bennaf yw 'Bedydd Plant'. Ceir hefyd yma 'Oedfa Cyflwyno Plentyn' sy'n addas lle mae dymuniad rhoi diolch i Dduw am y rhodd o blentyn, gan ddeisyf bendith Duw ar fywyd y teulu cyfan, yn y gobaith y bydd, pan fydd yr amser yn addas, yn proffesu ei ffydd drwy fedydd credinwyr.)

Dylid cyflwyno tystysgrif bedydd i'r sawl a fedyddiwyd.

Ceir awgrym yn y gwasanaeth Bedydd Credinwyr bod yr ymgeisydd am fedydd yn cael ei ch/gyflwyno a'i chroesawu/groesawu gan naill ai ei rhiant/riant/rh/rieni neu noddwyr addas. Awgrymir bod y noddwyr hyn wedi bod yn rhan o dŵf Cristnogol yr ymgeisydd, ac yn addo estyn cymorth pellach iddi/iddo i feithrin ei ffydd a chyfarwyddo'i bywyd/fywyd fel Cristion.

Awgrymir ymhellach ei fod yn addas i'r rhieni/noddwyr gyfarch y sawl a fedyddiwyd drwy, er enghraifft, ei chofleidio/gofleidio a rhoi rhodd o Feibl iddi/iddo. Efallai y byddai cyflwyno cannwyll yn addas hefyd.

TREFN GWASANAETH BEDYDD CREDINWYR

Yr arfer yw bedyddio ym mhresenoldeb y gynulleidfa ar adeg addas yn ystod oedfa'r Sul.

Emyn

Wedi i'r ymgeisydd am fedydd ddod ymlaen yng nghwmni ei rh/rieni/rhiant/riant neu noddwyr addas, darllened y gweinidog eiriau gorchymyn Iesu i'w ddisgyblion:

Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi," meddai, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser."

Mathew 28:18–20

Darlleniadau

Oherwydd byddaf yn eich cymryd o blith y cenhedloedd, yn eich casglu o'r holl wledydd, ac yn dod â chwi i'ch gwlad eich hunain. Taenellaf ddŵr glân drosoch i'ch glanhau; a byddwch yn lân o'ch holl aflendid ac o'ch holl eilunod. Rhof i chwi galon newydd, a bydd ysbryd newydd ynoch; tynnaf allan ohonoch y galon garreg, a rhof i chwi galon gig. Rhof fy ysbryd ynoch, a gwneud ichwi ddilyn fy neddfau a gofalu cadw fy ngorchmynion. Byddwch yn byw yn y tir a roddais i'ch hynafiaid; byddwch yn bobl i mi, a minnau'n Dduw i chwi.

Eseciel 36: 24–28

A ydych heb ddeall fod pawb ohonom a fedyddiwyd i Grist Iesu wedi ein bedyddio i'w farwolaeth? Trwy'r bedydd hwn i farwolaeth fe'n claddwyd gydag ef, fel, megis y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd… Felly, yr ydych chwithau i'ch cyfrif eich hunain fel rhai sy'n farw i bechod, ond sy'n fyw i Dduw, yng Nghrist Iesu.

Rhufeiniaid 6:3–4, 11

Meddai Pedr wrthynt, "Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant eich pechodau, ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd. Oherwydd i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant, ac i bawb sydd ymhell, pob un y bydd yr Arglwydd ein Duw yn ei alw ato."

Actau 2:38–39

Datganiad

Rydym yn cyfarfod fel cynulleidfa o bobl Dduw i fedyddio E… Estynnwn iddi/iddo ein croeso yn enw Duw wrth iddi/iddo ddod i broffesu ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist ac i dderbyn bedydd fel un sy'n credu ynddo ef.

Cafodd Iesu ei hun ei fedyddio gan Ioan yn afon Iorddonen a thrwy hynny fe'i huniaethodd ei hun â'n dynoliaeth bechadurus ni.

Trwy fedydd yr ydym yn cyfranogi o angau ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist, yn marw i bechod ac yn cael ein codi i fywyd newydd ynddo ef. Y mae bedydd yn arwydd maddeuant pechodau, ac yn ernes dyfodiad yr Ysbryd Glân ac atgyfodiad i fywyd tragwyddol.

Y Broffes a'r Addunedau
Gofynned y gweinidog i'r ymgeisydd/wyr sefyll gan ddweud wrth bob un yn ei thro/dro:

E…, daethost yma i geisio bedydd mewn ymateb i alwad Crist. Felly gwahoddaf di i gyffesu dy ffydd a gwneud dy addewidion yma yn awr, ac fe gawn ninnau gofio ein haddewidion ninnau yn ein cyfamod â Duw.

Naill ai:
(a) Traddoded yr ymgeisydd ei chyffes/gyffes bersonol, gan roi addewidion cymwys i Dduw a'i Eglwys.

Neu:
(b) Atebed yr ymgeisydd y cwestiynau canlynol:

A wyt yn cyffesu bod Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd dy fywyd?

Ateb: **Ydwyf.**

A wyt yn edifarhau am dy bechodau, yn ymwrthod â phob drygioni ac yn addo, drwy ras Duw, fod yn ffyddlon i Grist?

Ateb: **Ydwyf.**

A wyt yn addo gwneud pobl Dduw yn bobl i ti, a bod yn ffyddlon yng nghymdeithas ei Eglwys ef a'i chenhadaeth weddill dy fywyd?

Ateb: Y**dwyf.**

Yna dyweded y gweinidog:
Felly, bydd yn ffyddlon i'th gyffes, a chadw dy air, gan gofio i ti ddatgan hyn o flaen Duw a'r gynulleidfa hon.

Sut y gallaf dalu i'r Arglwydd
am ei holl haelioni tuag ataf?
Dyrchafaf gwpan iachawdwriaeth,
a galw ar enw'r Arglwydd.
Talaf fy addunedau i'r Arglwydd
ym mhresenoldeb ei holl bobl.

Salm 116:12–14

Gweddi

Ein Tad trugarog, Creawdwr a Chynhaliwr y bydysawd,
diolch i ti am greu a chynnal ein bywydau ni.
Clodforwn di am dy waith dirgel yng nghalon/yng nghalonnau E…:
am i ti lefaru wrthi/wrtho/wrthynt mewn profiadau y tu hwnt i eiriau,
gafael ynddi/ynddo/ynddynt â'th law a'i/a'u harwain/arwain i fywyd newydd yng Nghrist.
Llawenhawn ynot, O Dduw,
o weld E… yn ei chyflwyno'i/gyflwyno'i hun/eu cyflwyno'u hunain i ti heddiw.
Gosod dy law arni/arno/arnynt yn awr yn y bedydd hwn,
a'i/a'u hawlio yn eiddo llwyr i ti.
Cynnal a nertha hi/ef/hwy
i dyfu mewn gras a ffyddlondeb,
a boed i ysbryd y gwirionedd drigo yn ei chalon/galon/eu calon.
Arwain hi/ef/hwy yn dy wirionedd di.
Cyfoethoga ei phrofiad/brofiad/eu profiad
a chryfha ei/eu ffydd.
Maddau i ninnau ein pechodau.
Pura holl fwriadau a gweithredoedd ein bywyd,
rhag i ni fod mewn unrhyw fodd
yn rhwystr i neb ddod atat ti;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Y Bedydd

Gofynned y gweinidog i'r rhieni/rhiant/noddwyr a gweddill y gynulleidfa godi. Gyda'r ymgeisydd yn penlinio neu'n sefyll, y mae'r gweinidog yn taenellu dŵr ar ei phen/ben/eu pennau, ac yn dywedyd:

E…, yr wyf yn dy fedyddio di yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen.

Bydded i'r Arglwydd dy fendithio a'th gadw;
bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat, a bod yn drugarog wrthyt;
bydded i'r Arglwydd edrych arnat, a rhoi iti heddwch.

Numeri 6:24–26

Gwahoddir rhieni/rhiant a noddwyr y bedyddiedig i'w chyfarch/gyfarch, a dyweded y gweinidog:

Mae E… wedi ei bedyddio/fedyddio yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Ein braint a'n cyfrifoldeb ni oll fydd gweddïo drosti/drosto, a'i helpu ym mhob ffordd i gynyddu yn noethineb ac ofn yr Arglwydd, fel y caiff nerth i ddilyn Iesu a bod yn aelod ffyddlon yn ei Eglwys ef.

Byddwn yn meithrin ein gilydd mewn ffydd,
yn cynnal ein gilydd mewn gweddi
ac yn annog ein gilydd mewn gwasanaeth.

[Os dymunir derbyn y bedyddiedig yn aelod o'r eglwys yn yr oedfa hon, gofynned y gweinidog iddi/ iddo/iddynt:

A wyt yn cyfamodi â ni yn yr eglwys hon i gyflawni dy ddyletswyddau fel aelod, ac yn addo dwyn tystiolaeth mewn gair a gweithred i Iesu Grist?

Ateb: **Ydwyf, trwy gymorth Duw.**

Rhodded y gweinidog ddeheulaw cymdeithas i'r aelod newydd gan ddweud:

E…, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, derbyniaf di i gyflawn aelodaeth yn ei Eglwys ef, ac fel arwydd o hyn estynnaf iti ddeheulaw cymdeithas.

Gofynned y gweinidog i'r aelod/aelodau newydd ymuno â'r gynulleidfa i gydadrodd y Cyfamod Eglwys, er enghraifft:

Cyflwynwn ein hunain i'r Arglwydd,
gan gyfamodi yn ei bresenoldeb i gydrodio yn ôl ei Air.
Cynorthwyed Duw ni.

Eistedded y gynulleidfa.

Gweddi
Ysbrydola waith a chenhadaeth dy Eglwys, O Arglwydd.
Nertha ni i gadw'n haddewidion i ti,
i'th garu di'n fwy,
ac i'th ddilyn di'n well.
Ac arhosed dy fendith arnom ni yn wastadol;
yn enw dy Fab, Iesu Grist. Amen.

Emyn

Yna parhaed â gweddill yr oedfa.

TREFN GWASANAETH BEDYDD CREDINWYR TRWY DROCHIAD

Dylid gweinyddu'r ordinhad o fedydd credinwyr trwy drochiad ym mhresenoldeb y gynulleidfa yn ystod yr addoliad cyhoeddus. Yn wir, dylid ystyried y gweinyddiad ohono, yn dilyn darllen a chyhoeddi'r Efengyl, yn uchafbwynt yr addoliad, a'r gwasanaeth ar ei hyd wedi ei drefnu gyda'r diben, nid yn unig o weinyddu'r ordinhad, ond hefyd o esbonio ystyr ac arwyddocâd y weithred o fedyddio.

I gredinwyr y mae bedydd:
Yn act o ufudd-dod i orchymyn yr Arglwydd Iesu.
Yn efelychiad o esiampl Iesu a fedyddiwyd gan Ioan yn afon Iorddonen.
Yn gyffes gyhoeddus o ffydd bersonol yn Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd.
Yn adduned o deyrngarwch i Grist, ac yn ymrwymiad i fod yn eiddo iddo am byth.

Gweddi agoriadol

Emyn

Darlleniadau:

Gellir dewis o blith y canlynol

Yna daeth Iesu o Galilea i'r Iorddonen at Ioan i'w fedyddio ganddo. Ceisiodd Ioan ei rwystro, gan ddweud, "Myfi sydd ag angen fy medyddio gennyt ti, ac a wyt ti'n dod ataf fi?" Meddai Iesu wrtho, "Gad i hyn fod yn awr, oherwydd fel hyn y mae'n weddus i ni gyflawni popeth y mae cyfiawnder yn ei ofyn." Yna gadodd Ioan iddo ddod. Bedyddiwyd Iesu, ac yna, pan gododd allan o'r dŵr, dyma'r nefoedd yn agor iddo, a gwelodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colomen ac yn dod arno. A dyma lais o'r nefoedd yn dweud, "Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu."

Mathew 3:13–17

Llefarodd angel yr Arglwydd wrth Philip: "Cod," meddai, "a chymer daith tua'r de, i'r ffordd sy'n mynd i lawr o Jerwsalem i Gasa." Ffordd anial yw hon. Cododd yntau ac aeth. A dyma ŵr o Ethiop, eunuch, swyddog uchel i Candace, brenhines yr Ethiopiaid, ac yn ben ar ei holl drysor hi; yr oedd hwn wedi dod i Jerwsalem i addoli, ac yr oedd yn dychwelyd ac yn eistedd yn ei gerbyd, yn darllen y proffwyd Eseia.
Dywedodd yr Ysbryd wrth Philip, "Dos a glŷn wrth y cerbyd yna." Rhedodd Philip ato a chlywodd ef yn darllen y proffwyd Eseia, ac meddai, "A wyt ti'n deall, tybed, beth yr wyt yn ei ddarllen?" Meddai yntau, "Wel, sut y gallwn i, heb i rywun fy nghyfarwyddo?" Gwahoddodd Philip i ddod i fyny ac eistedd gydag ef. A hon oedd yr adran o'r Ysgrythur yr oedd yn ei darllen:

"Arweiniwyd ef fel dafad i'r lladdfa,
ac fel y bydd oen yn ddistaw yn llaw ei gneifiwr,
felly nid yw'n agor ei enau.
Yn ei ddarostyngiad gomeddwyd iddo farn.

Pwy all draetha am ei ddisgynyddion?
Oherwydd cymerir ei fywyd oddi ar y ddaear."

Meddai'r eunuch wrth Philip, "Dywed i mi, am bwy y mae'r proffwyd yn dweud hyn? Ai amdano'i hun, ai am rywun arall?" Yna agorodd Philip ei enau, a chan ddechrau o'r rhan hon o'r Ysgrythur traethodd y newydd da am Iesu iddo. Fel yr oeddent yn mynd rhagddynt ar eu ffordd, daethant at ryw ddŵr, ac ebe'r eunuch, "Dyma ddŵr; beth sydd yn rhwystro imi gael fy medyddio?" Dywedodd Philip, "Os wyt yn credu â'th holl galon, fe elli." Atebodd yntau, "Yr wyf yn credu mai Mab Duw yw Iesu Grist." A gorchmynnodd i'r cerbyd sefyll, ac aethant i lawr ill dau i'r dŵr, Philip a'r eunuch, ac fe'i bedyddiodd ef. Pan ddaethant i fyny o'r dŵr, cipiwyd Philip ymaith gan Ysbryd yr Arglwydd; ni welodd yr eunuch mohono mwyach; ac aeth ymlaen ar ei ffordd yn llawen.

Actau 8:26–39

A ydych heb ddeall fod pawb ohonom a fedyddiwyd i Grist Iesu wedi ein bedyddio i'w farwolaeth? Trwy'r bedydd hwn i farwolaeth fe'n claddwyd gydag ef, fel, megis y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad, y byddai i ninnau gael byw ar wastad bywyd newydd… Felly, yr ydych chwithau i'ch cyfrif eich hunain fel rhai sy'n farw i bechod, ond sy'n fyw i Dduw, yng Nghrist Iesu.

Rhufeiniaid 6:3–4, 11

Claddwyd chwi hefyd yn eich bedydd, ac yn y bedydd hefyd fe'ch cyfodwyd gydag ef drwy ffydd yn nerth Duw, yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw.

Colosiaid 2:12

Gweddi

Pregeth neu anerchiad

Emyn

Ordinhad Bedydd

Cyn iddi/o fynd i mewn i'r fedyddfa, safed y gweinidog uwchben y ffynnon fedydd, a darllened gomisiwn Iesu, ac offrymu gweddi fer:

Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi," meddai, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.

Mathew 28:18–20

Gweddi:

Gorffwysed dy fendith, O Dduw ein Tad, ar y weithred hon o fedyddio, a boed iddi droi'n ddarlun i ni fel cynulleidfa o farwolaeth ac atgyfodiad Iesu, a'r modd y gallwn ninnau sy'n ganlynwyr iddo atgyfodi gydag ef i fywyd newydd. Trwy dy Ysbryd Glân nertha fy ngweinidogaeth wrth i mi

weinyddu'r ordinhad; ysbrydola'r sawl sy'n derbyn yr ordinhad; cadarnhâ ffydd y sawl sy'n dystion i'r ordinhâd; a boed i bawb ohonom, yn ddiwahân, ymlawenhau o'r newydd yn y profiad a feddwn o Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd. Hyn oll a ofynnwn yn ei enw. Amen.

Yn dilyn, aed y gweinidog i mewn i'r fedyddfa, gan alw pob ymgeisydd ato yn ei dro/thro. Fe all pob ymgeisydd ddewis aelod o'r teulu/yr eglwys i eistedd gydag ef/hi yn ystod y gwasanaeth, ac yna, yn dilyn y bedydd, i ddisgwyl amdano/amdani â thywel i sychu'r wyneb, a hefyd i roi help llaw i ddringo'r grisiau allan o'r fedyddfa. Weithiau, gall y cymorth hwn gael ei estyn gan un o ddiaconiaid yr eglwys.

Â'r ymgeisydd yn sefyll uwchben y ffynnon fedydd, holed y gweinidog ef/hi:
E…, a wyt ti yn credu â'th holl galon yn Iesu Grist, ei fod yn Fab Duw ac yn Waredwr personol i ti?

Ateb: **Ydwyf.**

Ar gyffes o'th ffydd yn Iesu Grist, tyred, felly, i mi dy fedyddio.

Rhodded y gweinidog law i'r ymgeisydd i'w helpu i mewn i'r ffynnon fedydd.
Â'r ymgeisydd yn sefyll yn y dŵr yn barod i'w b/fedyddio, dyweded y gweinidog wrth weinyddu'r ordinhad drwy drochi'r ymgeisydd yn nŵr y bedydd:

E…, ar broffes o'th ffydd yn Iesu Grist, ei fod yn Fab Duw ac yn Waredwr personol i ti, yr wyf yn dy fedyddio yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen.

Yn dilyn gweinyddu'r ordinhad, tra bo pob un ymgeisydd yn codi allan o'r dŵr, y mae'n arferiad mewn llawer o eglwysi i'r gynulleidfa ymuno i ganu emyn bedydd priodol.

Cyn i'r ymgeisydd adael y ffynnon fedydd, gall y gweinidog ddeisyf bendith arni/arno:

Bydded i'r Arglwydd dy fendithio a'th gadw;
bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat,
a bod yn drugarog wrthyt;
bydded i'r Arglwydd edrych arnat,
a rhoi iti heddwch.

Numeri 6:24–26

Emyn

Y Fendith

TREFN GWASANAETH BEDYDD PLENTYN

Yr arfer yw bedyddio babanod neu blant ym mhresenoldeb y gynulleidfa ar adeg addas yn ystod oedfa'r Sul.

Emyn

Wedi i'r rhieni ddwyn y plentyn ymlaen, darllened y gweinidog eiriau gorchymyn Iesu i'w ddisgyblion:

Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi," meddai, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser."

Mathew 28:18–20

Darlleniadau

Gellir dewis o blith y canlynol:

"Y mae'r dyddiau'n dod," medd yr Arglwydd, "y gwnaf gyfamod newydd â thŷ Israel ac â thŷ Jwda. Rhof fy nghyfraith o'u mewn, ysgrifennaf hi ar eu calon, a byddaf fi'n Dduw iddynt a hwythau'n bobl i mi. Ac ni fyddant mwyach yn dysgu bob un ei gymydog a phob un ei berthynas, gan ddweud, 'Adnebydd yr Arglwydd'; oblegid byddant i gyd yn f'adnabod, o'r lleiaf hyd y mwyaf ohonynt," medd yr Arglwydd, "oherwydd maddeuaf iddynt eu drygioni, ac ni chofiaf eu pechodau byth mwy.

Jeremeia 31: 31–34

Gwrando, O Israel: Y mae'r Arglwydd ein Duw yn un Arglwydd. Câr di yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth. Y mae'r geiriau hyn yr wyf yn eu gorchymyn iti heddiw i fod yn dy galon. Yr wyt i'w hadrodd i'th blant, ac i sôn amdanynt pan fyddi'n eistedd yn dy dŷ ac yn cerdded ar y ffordd, a phan fyddi'n mynd i gysgu ac yn codi.

Deuteronomium 6:4–7

Yr oeddent yn dod â phlant ato, iddo gyffwrdd â hwy. Ceryddodd y disgyblion hwy, ond pan welodd Iesu hyn aeth yn ddig, a dywedodd wrthynt, "Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n dweud wrthych, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi." A chymerodd hwy yn ei freichiau a'u bendithio, gan roi ei ddwylo arnynt.

Marc 10:13–16

Yr amser hwnnw daeth y disgyblion at Iesu a gofyn, "Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?" Galwodd Iesu blentyn ato, a'i osod yn eu canol hwy, a dywedodd, "Yn wir, rwy'n dweud wrthych, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd. Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd.

A phwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i."

Mathew 18:1–5

Meddai Pedr wrthynt, "Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant eich pechodau, ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd. Oherwydd i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant, ac i bawb sydd ymhell, pob un y bydd yr Arglwydd ein Duw ni ei alw ato."

Actau 2:38–39

Datganiad

Yn gynulleidfa o bobl Dduw, estynnwn groeso i A… a B… wrth iddynt ddod i gyflwyno'u merch/mab E… i'w bedyddio/fedyddio. Rhannwn â hwy yn llawenydd ac addewid y dydd hwn a gweddïwn am fendith Duw arnynt fel teulu.

Yn y bedydd mynegwn fod Duw yn caru E…, a bod iddi/iddo le yng nghymdeithas yr Eglwys. Trwy ei bedyddio/fedyddio cyhoeddir i Grist farw er ei mwyn/fwyn heb ymgynghori â hi/ag ef erioed, nac aros am ei hymateb/ymateb. Gwnaed hyn dros E... cyn iddi/iddo gael ei geni/eni, a chyn i neb feddwl amdani/amdano. Y mae bedydd yn arwydd maddeuant pechodau, ac yn ernes dyfodiad yr Ysbryd Glân ac atgyfodiad i fywyd tragwyddol.

Gan fod ein plant yn perthyn gyda ni i Grist, dymunwn iddynt hwythau gael breintiau a grasusau'r Efengyl.

Gweddi

Ein Tad trugarog, diolch i ti am roi'r plentyn hwn i A… a B… Diolch i ti ei bod/fod wedi dod i'n plith ni yma heddiw. Bydd yma gyda ni yn awr a thrwy dy Ysbryd Glân sancteiddia'r hyn a wnawn wrth i ni fedyddio E… yn dy enw.

Cymer E… yn dy freichiau, gan ei chadw/gadw yn ddiogel drwy holl beryglon bywyd. Boed i ysbryd gwirionedd a gras drigo yn ei chalon/galon, ac arwain hi/ef yn dy wirionedd di.

Bendithia deulu a chyfeillion E…. Nertha ei rhieni/rieni i ofalu amdani/amdano. Boed iddynt ddangos dy ofal tyner di, a boed iddynt wrth garu E… ddysgu dy garu di yn fwy bob dydd. Bendithia'u haelwyd, a gad iddynt barhau i anrhydeddu ei gilydd bob amser, fel y bo i E… gael ei magu/fagu yn sŵn cariad a maddeuant.

Maddau ein pechodau. Pura holl fwriadau a gweithredoedd ein bywyd, er mwyn i ni roi arweiniad addas i E... Glanha ein calonnau, fel y gallwn fod yn dystion teilwng i'r bedydd. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Yr Addunedau

Gofynned y gweinidog i'r rhieni sefyll

Os ydy'r plentyn yn dymuno, gofynned y gweinidog iddi/iddo:

A wyt ti yn credu fod Iesu Grist yn ffrind i ti, ac a wyt ti eisiau ei ddilyn ef bob dydd?

Ateb: **Ydwyf.**

Gellir defnyddio un o'r ddwy ffurf ganlynol:

Naill ai:

(a) Wrth ddod ag E... i'w bedyddio/fedyddio, a ydych/wyt yn cyffesu eich/dy ffydd yn Nuw eich Tad/dy Dad nefol, yn Iesu Grist eich Gwaredwr/dy Waredwr a'ch/a'th Arglwydd, ac yn yr Ysbryd Glân sydd yn eich/dy arwain a'ch/a'th nerthu?

Ateb: **Ydym/Ydwyf.**

A ydych/wyt yn addo, trwy gymorth Duw, darparu cartref Cristnogol i E..., a'i meithrin/feithrin yn nysgeidiaeth yr Efengyl ac yng nghymdeithas yr eglwys, fel y caiff gyfle i adnabod yr Arglwydd Iesu yn Waredwr iddi/iddo?

Ateb: **Ydym/Ydwyf.**

neu:

(b) Wrth ddod ag E... i'w bedyddio/fedyddio, yr ydych/wyt yn cyffesu eich/dy ffydd yn Nuw eich Tad/dy Dad nefol, yn Iesu Grist eich Gwaredwr/dy Waredwr a'ch/a'th Arglwydd, ac yn yr Ysbryd Glân sydd yn eich/dy arwain a'ch/a'th nerthu. Yr ydych/wyt yn addo, trwy gymorth Duw, darparu cartref Cristnogol i E..., a'i meithrin/feithrin yn nysgeidiaeth yr Efengyl ac yng nghymdeithas yr eglwys, fel y caiff gyfle i adnabod yr Arglwydd Iesu yn Waredwr iddi/iddo.

Er mwyn eich plentyn/dy blentyn, felly, cadwch eich gair/cadwa dy air, gan gofio i chwi/ti roi eich/dy addewidion o flaen Duw a'r gynulleidfa hon.

Gofynned y gweinidog i'r gynulleidfa sefyll, a dyweded
A ydych chwi, fel cynulleidfa o bobl Dduw, yn addo gwneud eich rhan ym magwraeth Gristnogol E..., a'r holl blant eraill yn ein mysg, trwy ddarparu iddynt hyfforddiant yn y ffydd a chymdeithas yn yr Efengyl?

Ateb: **Ydym.**

Sut y gallaf dalu i'r Arglwydd
am ei holl haelioni tuag ataf?
Dyrchafaf gwpan iachawdwriaeth,
a galw ar enw'r Arglwydd.
Talaf fy addunedau i'r Arglwydd
ym mhresenoldeb ei holl bobl. *Salm 116:12–14*

Y Bedydd

Wedi cymryd y plentyn yn ei breichiau/freichiau, gofynned y gweinidog i'r rhieni/rhiant:
Beth yw enw'ch plentyn/dy blentyn?

Atebed un o'r rhieni gan roi enw'r plentyn:
E…

Dywed y gweinidog wrth fedyddio:
E…, yr wyf yn dy fedyddio di yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen.

Bydded i'r Arglwydd dy fendithio a'th gadw;
bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat,
a bod yn drugarog wrthyt;
bydded i'r Arglwydd edrych arnat,
a rhoi iti heddwch.

Numeri 6: 24–26

Wedi rhoi'r plentyn yn ôl i'w rh/rieni, dyweded y gweinidog wrth y gynulleidfa:

Mae E… wedi ei bedyddio/fedyddio yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Ein braint a'n cyfrifoldeb ni oll fydd gweddïo drosti/drosto, a'i helpu ym mhob ffordd i gynyddu yn noethineb ac ofn yr Arglwydd, er mwyn iddi/iddo ddod i ddilyn Iesu, ac i fod yn aelod ffyddlon yn ei Eglwys ef.

Byddwn yn meithrin ein gilydd mewn ffydd,
yn cynnal ein gilydd mewn gweddi
ac yn annog ein gilydd mewn gwasanaeth.

Eistedded y gynulleidfa.

Gweddi
Arddel blant dy Eglwys, O Arglwydd.
Nertha ni i gadw'n haddewidion i ti,
i'th garu di'n fwy,
ac i'th ddilyn di'n well.
Ac arhosed dy fendith arnom ni yn wastadol;
yn enw dy Fab, Iesu Grist. Amen.

Emyn

Yna parhaed â gweddill yr oedfa.